

Digwyddiadau 2022

Bydd y brif raglen adloniant rhwng 9am a 5pm. Mae rhai gweithgareddau'n digwydd drwy'r dydd ac eraill yn digwydd nawr ac yn y man drwy gydol y dydd.

Stondinau Bwyd a Diod



Bydd dros 70 o stondinau bwyd a diod gyda chacennau, bara, melysion, cyffug, teisennau, sawsiau, perlysiau a sbeisys, siytni, pítsa a llawer mwy. Mwynhewch flas diod neu ddwy gan y nifer fawr o werthwyr gwirodydd, cwrw a seidr. Rhowch gynnig ar y gwahanol gawsiau sydd ar gael a phrynu eich ffefrynnau chi. Bydd digonedd o fwyd stryd i dynnu dŵr o'ch dannedd chi... aroglwch y sawrau a gwyllo'r bwyd poeth yn cael ei goginio o'ch blaen chi.

Marchnad Crefftwyr Caerffili



Bydd gan Farchnad Crefftwyr Caerffili ddetholiad o fwyd, crefft a chelf Cymreig ar werth. Gyda thua 25 o fasnachwyr, mae'n lle gwych i godi'ch hanfodion wythnosol ynghyd ag arnhegion o safon.

Facebook: /caerphillylovelocalartisanmarket

Ffair Grefftau Caerffili gan Crafty Legs – Y Senotaff



Bydd y ffair grefftau fisol wedi'i lleoli ger Coffi Vista o amgylch y senotaff a bydd yn gartref i tua 25 o grefftwyr. O gelf a chrefft i addurniadau cartref a gemwaith, bydd digonedd o arnhegion wedi'u gwneud â llaw yn lleol yn cael eu harddangos i chi gael dewis yr arheg anarferol ac unigryw hwnnw.

Facebook - /CaerphillyCraftFair

Marchnad Crefft a Bwyd Cwrt y Castell



Bydd y farchnad grefftau a bwyd fisol yn cael ei lleoli yng Nghanolfan Siopa Castle Court, gyferbyn â Chastell Caerffili, a bydd yn arddangos dros 20 o stondinau crefftau a chynnyrch cartref wedi'u gwneud â llaw gan gynhyrchwyr lleol yn ne Cymru.

Facebook: /Castlecourtcraftandfoodmarket

Canolfan Siopa Cwrt y Castell – Y Llwyfan Band



Bydd Llwyfan Band Cwrt y Castell yn gartref i ddetholiad gwych o gerddorion, grwpiau dawns a chorau drwy gydol y dydd. Bydd llawer o berfformwyr cymunedol yn mynd ar y llwyfan, gan gynnwys Melody Makers a Machen Academy.

Amser	Perfformiwr
10.00 - 11.00	

11.00 - 12.00	Rachel Tomsk
12.00 - 1.00	Machen Academy
1.00 - 2.00	Nicola Fullen
2.00 - 3.00	John Ash – Eglwys Cenydd Sant

Gwefan: www.castlecourtwales.co.uk

Facebook: [/shopcastlecourt](https://www.facebook.com/shopcastlecourt)

[‘Artisan Cooks’ – Arddangosiadau Coginio](#)



Bydd Clover Hutson yn cael ei gynorthwyo gan gogyddion gorau i ddangos ryseitiau gwych i chi roi cynnig arnyn nhw pan fyddwch chi'n cyrraedd adref! Mae Clover wedi gweithio gyda chleientiaid gan gynnwys Aldi, Morrisons, Tim Hortons, Kerrygold, Pilgrims Choice, Mexicana Cheese, Applewood Cheese, KTC, Sea Isle, i enwi dim ond rhai!

[Bydd arddangosiadau yn cael eu cynnal drwy gydol y dydd. Ewch i'r trelar i gael yr amseroedd ar y diwrnod.](#)

Gwefan: <http://artisancooks.co.uk/>

[Bwyteuach Gig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru – Arddangosiadau Coginio](#)



[Ewch i drelar Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru am amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn cael eu cynnal gan Hybu Cig Cymru. Bydd y trelar yn cynnwys arddangosiadau coginio, cystadlaethau yn ogystal â'r cyfle i godi cardiau ryseitiau i'ch ysbrydoli chi i goginio Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru gartref.](#)

[Bydd arddangosiadau yn cael eu cynnal drwy gydol y dydd. Ewch i'r trelar i gael yr amseroedd ar y diwrnod.](#)

[Facebook: /welshlamb](#)

[Gwefan: eatwelshlambandwelshbeef.com](#)

[The Preservation Society – The Cookalong Clwb](#)



Mae'r Preservation Society yn dod â'r Cookalong Clwb i Wyl Fwyd Caerffili lle gall plant ac oedolion addurno cwciws a gwneud potiau nwdls gyda chynhwysion ffres gwyh am dâl bach, gan godi arian i helpu teuluoedd i ddysgu coginio gyda'i gilydd gan ddefnyddio ryseitiau syml a hawdd. Bydd ganddyn nhw hefyd eu jariau blasusrwydd sydd wedi ennill lluo o wobrau.

Gwefan: www.thepreservationsociety.co.uk

Facebook:

<https://www.facebook.com/ThePreservationSociety>

[Gweinyddwyr Ffrangeg – Theatr Stryd](#)



Mae'r Gweinyddwyr Ffrangeg yn frwd dros eu gwaith a'u cwsmeriaid. Maen nhw'n cynnig croeso mawr a chynnes ac mae ganddyn nhw lawer o frwdfrydedd i wasanaethu. Gyda chaniad o'r gloch neu glic o'r bysedd, byddan nhw yno, i geisio â'u holl galon, i ddiwallu eich holl anghenion.

Facebook: [diggingholestheatre](#)

Gwefan: www.diggingholes.co.uk

Amseroedd y Perfformiadau
11.00am–11.45am
12.15pm–1.00pm
1.30pm–2.15pm
2.45pm–3.30pm
4.00pm–4.45pm

[Meal On A Wheel](#)



Gwylwch wrth i Meal On A Wheel ddod yn gwibio drwy'r dref i gael pryd ddoe wedi'i ddsbarthu i chi heddiw! Mae'n wasanaeth gyda gwên ond ydy e'n gallu cadw'r pryd ar y plât?

Gwefan: www.jugglingjim.co.uk

Amseroedd y Perfformiadau
11.00am
1.00pm
3.00pm

The Big Banger



Y Big Banger, y cigydd talaf yn y dref gyda'r jôcs mwyaf gwael, yw'r selsig fwyaf gwirion ohonyn nhw i gyd.

Gwefan: www.jugglingjim.co.uk

Amseroedd y Perfformiadau
10.00am

12.00pm
2.00pm

Sioe taflu cyllyll gomedi cogydd



Chop! yw'r sioe newydd gan berfformiwr stryd profiadol. Fel dim byd ydych chi erioed wedi gweld yn y gegin o'r blaen (gobeithio!). Mae pob cogydd yn ymfalchïo yn ei sgiliau gyda chyllyll, ond mae gan yr un hwn ddull cwbl newydd! Yn y gegin hon o gyllyll sy'n hedfan, nid yw pethau'n union fel y maen nhw'n ymddangos. Mae gan y cogydd rai dulliau coginio anarferol iawn sy'n disgyn i anhrefn yn fuan! Ni allwn ni hyd yn oed ddychmygu beth fyddai Gordon Ramsay yn ei ddweud!

Arbenigedd y cogydd yw gweini pryd o fwyd anarferol. Mae'r hyn sy'n dechrau fel sesiwn goginio syml yn dod yn rhywbeth gwahanol iawn. Disgwylwch ychydig o lanast, rhywfaint o hud, sgiliau gwych, yr annisgwyl, cyfranogiad y gynulleidfa a llawer o chwerthin.

Amseroedd y Perfformiadau – Maes Parcio'r Twyn
10.00am
12.00pm
2.00pm

Y Dewin sy'n cynhyrchu eich 5 y dydd!



Mae Gary yn perfformio ei sioe hud dwylo a chomedi a enillodd y wobwr gyntaf yn 2il gystadleuaeth Perfformiwr Stryd Rhyngwladol Guernsey a'r wobwr gomedi ym Mhencampwriaeth Hud Stryd y Byd yn yr Almaen. Mae Gary yn cymysgu comedi a hud a lledrith gyda rhyngweithio chwareus gyda'r gynulleidfa. Yn adnabyddus yn y byd perfformio stryd am ei allu i adeiladu torf a'i sgiliau byrfyfyr, gall Gary addasu ei sioe i wahanol themâu digwyddiadau gyda gwisgoedd gwahanol a defnyddio gwahanol wrthrychau bob dydd yn ei sioeau. Mae'n adnabyddus am ei allu i 'fynd gyda'r llif' ac addasu byrfyfyr mewn amrywiol sefyllfaoedd. Mae Gary yn cynnig sioeau lle mae'n adeiladu'r dorf mewn amgylchedd stryd gan gymysgu hud a lledrith i ddenu pobl.

Amseroedd y Perfformiadau – Park Lane
10.30am
12.30pm
2.30pm

Tommy Ake y Cogydd Jyglo



Dewch i gwrdd â Tommy Ake, y cogydd comedi hyfryd sy'n jyglo wrth gerdded o gwmpas. Mae'n debyg bod yr hyn nad yw'n ei wybod am fwyd yn llawer, ond mae'n fwy na gwneud yn iawn am hyn mewn brwdfrydedd a chwerthin gyda chyllyll jyglo a

hambwrdd enfawr o ffrwythau a llysiau ffug, yn ogystal â chimwch braidd yn orfrwdfrydig. Mae chwarae gyda'i fwyd yn hanfodol i'r cogydd hwn!

Amseroedd y Perfformiadau – Park Lane
11.00am
1.00pm
3.00pm

Reidiau Ffair Hwyl



Bydd nifer fach o reidiau ffair hwyl i blant ym Maes Parcio'r Twyn i ddiddanu'r rhai bach! O'r 'funhouse' gwallgof, y reid cwpanu te gyffrous i'r trampolinau sydd gofyn am lawer o egni!

Falconry UK



Bydd adar ysglyfaethus yn cael ei arddangos i ymwelwyr edrych arnyn nhw, cael ffotograffau gyda nhw a dysgu am ffeithiau a chefnidir hynod ddiddorol y creaduriaid rhyfeddol hyn.

Gwefan: www.falconry-uk.org

Facebook: [/FALCONRYUK](https://www.facebook.com/FALCONRYUK)

(Gall yr holl wybodaeth newid. Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddi'r wybodaeth)